

Datblygu Gallu Dalgylchoedd i Wrthsefyll Newidiadau

Mae Datblygu Gallu Dalgylchoedd i Wrthsefyll Newidiadau (BRiCS) yn brosiect ymchwil ar y cyd sy'n gweithio gyda 30 o ffermydd i wella rheoli dŵr, maeth a chynefinoedd mewn tair afon y Sir Benfro.

Mae BRiCS yn:

Darparu cyngor arbenigol, arweiniad a chefnogaeth i ffermwyr;

Cyflwyno cynlluniau cynghori sy'n canolbwyntio ar faeth (ar gyfer hyd at 30 o ffermydd);

Helpu i sicrhau cyllid ar gyfer mapio pridd maeth targedig, ffermio trachywir a, lle y bo'n berthnasol, adeiladu gwlypdiroedd fferm;

Datblygu fframwaith i greu menter sydd â'r gallu i redeg cynllun masnachu ar sail maeth sy'n gallu talu rheolwyr tir i gyflawni camau sydd o fudd i'r amgylchedd naturiol, y tu hwnt i ofyniad rheoleiddio a sicrhau datblygiad economaidd cynaliadwy a chyfleoedd buddsoddi yn y dyfodol.

Mewn cydweithrediad â Puffin Produce, cynhaliwyd dau weithdy iechyd pridd ac amaethu yn nalgylch Winterton Marsh.

Arweiniodd Mark Stalham, arbenigwr iechyd pridd ac agronomeg tatws enwog o NIAB, Fferm Prifysgol Caergrawnt, ddau weithdy

Gweithdy iechyd pridd



PEMBROKESHIRE NATURE PARTNERSHIP



PARTNERIAETH NATUR

SIR BENFRO Cyfrol 16 Rhifyn 3
Hydref / Gaeaf 2019

Yn y rhifyn hwn

Datblygu Gallu Dalgylchoedd i Wrthsefyll
Newidiadau
Tudalennau 1—2



Ecolegydd Cynllunio Newydd ar gyfer Sir
Benfro
Tudalen 2



Dyfodol Daionus yn Bluestone
Tudalen 3



Cysylltu'r Dreigiau
Tudalennau 4—5

amphibian and reptile
conservation



gwarchod
amffibiaid ac ymlusgiaid

Y Goedwig Hir
Tudalen 5



Golwg ar Fwyd Gwyllt 2019
Tudalennau 5—6



Digwyddiadau
Tudalen 11

Manylion Cysylltu
Tudalen 12

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 1



ymarferol manwl, hynod ddifir. Cynigwyd cyngor i'r ffermwyr a oedd yn bresennol ar sut i asesu iechyd eu pridd, a bu modd iddynt hefyd elwa ar wybodaeth a phrofiad eang Mark ar ffyrdd i wella eu pridd trwy amaethu'n well. Roedd digon o gyfle i drafod gwreiddio, tir dwrlawn, defnyddio maeth, a gallu pridd i ddal dŵr.

Diolch i R E Evans Farms Ltd a J Llewellyn and Co., a gynhaliodd y gweithdai. Caiff BRICs ei ariannu trwy'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy sy'n rhan o Raglen Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig 2014-20 Llywodraeth Cymru.

Dylai unrhyw ffermwyr yn is-ddalgylchoedd afonydd Llys y Fran, Pelcomb Brook neu Winterton Marsh gysylltu ag Emma Taylor (Swyddog Prosiect BRICs) ar 01834 870038.

Emma Taylor
BRICs



weithio fel ecolegydd graddedig gyda Chyngor Sir Gâr, lle bŵm yn cynorthwyo'r ecolegydd cynllunio a helpu gweddill y tîm cadwraeth gyda gorchwyllo amrywiol, gan gynnwys arolygon pathewod a phili-palaod. Rwyf hefyd wrthi'n ysgrifennu fy nhraethawd hir ar bathewod ar gyfer fy MSc yn fy amser sbâr.

Mae fy ngwaith yn Sir Gâr, yn enwedig ym maes ecoleg cynllunio, wedi fy rhoi mewn safle da i gyflawni'r rôl newydd hon, ac rwy'n gyffrous iawn cael gweithio ar gyfer Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ochr yn ochr â llawer o bobl frwdfrydig yn helpu cadw Sir Benfro yn hardd. Rydw i bob amser yn awyddus i fynd allan a dysgu pethau newydd, felly efallai y gwelaf i rai ohonoch mewn digwyddiadau amrywiol.

Mae croeso i chi gysylltu â mi ar:
rebecca.blackman@pembrokeshire.gov.uk

Rebecca Blackman
Ecolegydd Cynllunio



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



Ecolegydd Cynllunio Newydd ar gyfer Sir Benfro

Fy enw i yw Rebecca Blackman, ecolegydd cynllunio newydd Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

Mae fy nghefnidir yn ymwneud yn bennaf â gwarchod bywyd gwylt ac ecoleg, ar ôl treulio llawer o amser yn gwirfoddoli ar ôl graddio mewn lleoedd amrywiol gan gynnwys Ynysoedd Scilly, Swydd Amwythig, the Avon Gorge, Bempton Cliffs yn Swydd Efrog, ac arolygu dolffiniaid yng Nghei Newydd.

Ar ôl interniaeth 12 mis gyda'r RSPB, gweithiais fel Swyddog Profiad Ymwelwyr ar warchodfa coetir hyfryd yr RSPB yn Swydd Stafford. Er gwaethaf tawelwch a harddwch y coetiroedd, roedd y môr yn galw, a dechreuais weithio fel arweinydd bywyd gwylt ar y teithiau cwch o gwmpas Ynys Dewi. Yn dilyn hyn, dechreuais

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 2




Dyfodol Daionus yn Bluestone

Yn ystod 2019, creodd Bluestone adran newydd sbon - Cyfrifoldeb Corfforaethol. Pennaeth newydd Cyfrifoldeb Corfforaethol yn Bluestone yw Marten Lewis, cyn Gyfarwyddwr Gweithredol Canolfan Darwin. Mae rhaglen o fentrau newydd ar waith yn Bluestone wedi'i hanelu at gynyddu'r agenda cyfrifoldeb. Dywedodd Marten Lewis, "Mae gennym ni fudiad hollol newydd yn Bluestone, 'Dyfodol Daionus'; sef chwyldro datblygu cynaliadwy ledled y busnes cyfan. Cynhelir hyfforddiant ar Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig a materion cynaliadwyedd lleol, ar gyfer Cyfarwyddwyr a staff rhan-amser. Rydym ni'n ymroddedig o archwilio ein holl allbynnau a gofyn a ydyn ni'n bod yn gyfrifol am y ffordd rydym ni'n gwneud busnes, sy'n cwmpasu; caffael, cadwyn gyflenwi, llesiant staff, y gymuned leol, treftadaeth ddiwylliannol, gwastraff, ynni, a bioamrywiaeth".

O ran bioamrywiaeth, mae Bluestone yn gweithio gyda chymaint o randdeiliaid lleol perthnasol â phosibl. Yn sgil partneriaeth ddiweddar â Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod, a Grŵp Ystlumod Sir Benfro, cofnodwyd (yn ystod y cyfrif diwethaf) 51 o ystlumod barbastél o 13 o glwydydd o leiaf.

Rhwydi 'Mist'
Llun: Sam Dyer, CNC



Mewn partneriaeth â Cheidwad y Parc Cenedlaethol, Chris Taylor, a'i dîm o geidwaid gwirfoddol, mae Bluestone wedi adeiladu gwâl dyfrgwn, ar ôl canfod

tystiolaeth o ddyfrgwn yn nant Penglyn am y tro cyntaf y gwanwyn hwn.

Trefnodd Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru ddiwrnod cofnodi rhywogaethau ym mis Mehefin, a chofnodwyd dros 120 o rywogaethau o wyfynod (aros am y cofnodion eraill).

Mewn partneriaeth â Ginny a Russ o Pembrokeshire Hogspital, datblygodd Bluestone gynefin ac adeiladu saith nyth a gorsafoedd bwyta i ddraenogiaid. Daeth yn safle rhyddhau i ddraenogiaid wedi'u gaeafu, a chwblhawyd y gwaith cynefin gyda chymorth caredig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Stagbwl trwy eu gwirfoddolwyr rhyngwladol.

Mae ardal fawr o ddraenen ddu wedi cael ei chlustnodi i'w rheoli dros y gaeaf, er mwyn gwella'r amodau ar gyfer pili-palaod brithribin brown; mae hyn mewn partneriaeth â Nathan Walton a thîm o wirfoddolwyr o'r Ymddiriedolaeth Natur.

Mae tri grŵp gwahanol o fyfyrwyr Coleg Sir Benfro yn defnyddio Bluestone yn rheolaidd fel cyrchfan profiad gwaith ar reoli cynefinoedd, gan weithio'n agos â'r Uwch Geidwad, Rob Mackeen.

Mae cynlluniau dros y gaeaf i weithio gyda Grŵp Amffibiaid ac Ymlusgiaid Sir Benfro i ddatblygu prosiectau ar dir 550 erw Bluestone.

Mae Bluestone yn falch o fod yn un o brif noddwyr digwyddiad 'Golwg ar Fywyd Gwyllt' i ddathlu 10 mlwyddiant Fforwm Arfordir Sir Benfro ar 11 Hydref.

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o fentrau 'Dyfodol Daionus' Bluestone, cysylltwch â Marten Lewis trwy anfon neges e-bost at mlewis@bluetonewales.com

Marten Lewis
Bluestone Resort

bluestone
national park resort



Cysylltu'r Dreigiau

Mae Cysylltu'r Dreigiau (CtD) yn brosiect pedair blynedd ar raddfa fawr ledled de Cymru, sydd â'r nod o adfer a chodi ymwybyddiaeth o'i boblogaethau amffibiaidd ac ymlusgol (herpetoffawna) rhanedig sy'n dirywio. Elfen allweddol o lwyddiant y prosiect yw ymglymiad cymunedol; Bydd yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC) yn creu ac adfer cynefinoedd mewn lleoliadau strategol, gyda gwirfoddolwyr hyfforddedig sy'n cael eu mentora, i wella athreiddedd cynefinoedd ar gyfer meta-poblogaethau bywyd gwyllt mewn amgylchedd drefnoledig gynyddol. Bydd interniaid a gwirfoddolwyr brwdfrydig yn cael eu hyfforddi i arolygu a monitro eu poblogaethau herpetoffawna lleol, a bydd y data'n cael ei fwydo'n uniongyrchol i warchod natur. Hefyd, bydd ymgyrch yn cael ei lansio gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau cymunedol i gynnwys gwarchod herpetoffawna ar agendâu cyrff sy'n bartneriaid, codi ymwybyddiaeth partneriaid, a gwella delwedd rhywogaethau. Bydd ARC yn gweithio gyda gwirfoddolwyr a phartneriaid dwyieithog i gyflwyno'r prosiect yn Gymraeg a Saesneg.



Mae ARC wedi ymgynghori â 195 o gynrychiolwyr o 45 o sefydliadau rhanddeiliaid, yn ogystal â 251 o wirfoddolwyr posibl o gymunedau lleol. Mae brwdfrydedd eang dros ymgysylltu â'r prosiect gan unigolion a sefydliadau, ac mae ARC eisoes wedi llofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda naw phartner, sy'n caniatáu i ni weithio ar hyd at 42 o safleoedd yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflwyno'r unig.

Mae ARC yn bwriadu gweithio ar oddeutu 76 o safleoedd yn ystod y pedair blynedd. Bydd etifeddiaeth y prosiect, gyda chymorth ein partneriaid, yn dreftadaeth naturiol â chysylltiad ffisegol gwell, a chymunedau â dealltwriaeth well a chysylltiad â'r dreftadaeth honno.


Mae'r tri nod isod yn crynhoi amcanion y prosiect:

Nod 1: Cynyddu cysylltedd cynefinoedd a chadernid cytreffei ein rhywogaethau treftadaeth naturiol targed.

Nod 2: Creu rhwydwaith o wirfoddolwyr a phartneriaid medrus, brwd, sy'n cyflawni gwaith arolygu a monitro ein rhywogaethau naturiol targed mawr, ac yn y dyfodol.

Nod 3: Gwella delwedd a chynyddu dealltwriaeth o'n rhywogaethau treftadaeth naturiol targed trwy lygad y cyhoedd.

Mae gan brosiect CtD gyrhaeddiad eang ledled de Cymru:



Bydd gwaith y prosiect yn Sir Benfro yn canolbwyntio ar wiberod a nadroedd y gwair:

- Mae sicrhau poblogaethau gwiberod cadarn trwy ddylanwadu a helpu rheoli cynefinoedd yn elfen allweddol, yn enwedig ar hyd yr arfordir a Phreseli, ond mewn mannau eraill hefyd. Fe'i hatgyfnerthir trwy weithdai rheoli cynefinoedd gwiberod / diwrnodau ymweld â'r safle.



- Mae angen mwy o gofnodi a monitro safleoedd sy'n cael eu rheoli, gan ddefnyddio modelu cyfrifiadurol i'n cyfarwyddo ni, a sicrhau etifeddiaeth trwy raglen hyfforddi gwiberod ardystiedig.
- Bydd ymgyrch ymwybyddiaeth o wiberod yn cael ei lansio, gan ddefnyddio deunyddiau ffisegol a'r cyfryngau cymdeithasol (sgyrsiau, baneri, poster, ffeithluniau, fideos ac ati). Ydych chi'n gwybod am unrhyw fannau problemus o ran pobl/cŵn yn cael eu cnoi gan wiberod?
- Mae annog safleoedd dodwy wyau nadroedd y gwair yn elfen lai o'r prosiect. A oes gennych chi ddeilliannau rheoli ymylon / dolydd (neu dail anifeiliaid hyd yn oed) nad oes eu hangen? Rydym ni angen tomennu mawr mewn corneli cysylltiedig heulog, sy'n cael eu creu a'u monitro gyda staff / gwirfoddolwyr.

Cysylltwch â HLFDragons@arc-trust.org i gael mwy o wybodaeth neu i gymryd rhan.

Mark Barber
ARC

amphibian and reptile
conservation  **gwarchod**
amffibiaid ac ymlusgiaid

Y Goedwig Hir

Helpwch ni i gofnodi ein gwrychoedd yn Sir Benfro!

Mae gwrychoedd yn ffurfio rhan hanfodol o'n tirwedd, ond maent mewn perygl o gael eu hesgeuluso, eu difrodi a'u tynnu i lawr. Yn rhan o brosiect y Goedwig Hir, rydym ni'n bwriadu arolygu gwrychoedd ledled Cymru gyfan, i ennill gwybodaeth hanfodol am eu cyflwr, a'r rhywogaethau coed sy'n rhan ohonynt.

Mae'n hawdd i'w wneud, a gall unrhyw un gymryd rhan. Rydym ni wedi datblygu ap Y Goedwig Hir sy'n caniatáu i chi arolygu gwrychoedd ac amlygu rhywogaethau gwrychoedd yn gyflym ac yn hawdd, beth bynnag yw'ch lefel o brofiad. Gellir defnyddio'r ap ym mhob rhan o Gymru, hyd yn oed lle nad oes signal ffôn symudol. Beth

am wirio ein canllaw adnabod rhywogaethau defnyddiol i weld beth sy'n rhan o'ch gwrychoedd heddiw?



Mae'r ap ar gael ar Google Play ac Apple App store ar gyfer Android ac IOS. Ewch i'n gwefan www.longforest.cymru i gael mwy o wybodaeth.

Mari Williams
Cadwch Gymru'n Daclus



Golwg ar Fwyd Gwyllt 2019

Yn frwd dros fywyd gwyllt? Yna mae hwn yn ddigwyddiad addas i chi.

Ymunwch â ni mewn noson i ddathlu popeth sy'n naturiol a fydd yn agoriad llygad, wrth i arbenigwyr ddod at ei gilydd am 7pm ar 11 Hydref, i rannu delweddau a straeon am eu



profiadau'n gweithio gyda bywyd gwyllt - ar y tir a thanddwr. Dewch i ddarganfod sut gallwch chi gymryd rhan mewn prosiectau lleol, neu i gael eich syfrdanu gan rai ffotograffau rhyfeddol - a chael eich ysbrydoli i fynd allan â thynnu lluniau â'ch camera.

Cynhelir y digwyddiad gan Fforwm Arfordirol Sir Benfro ([PCF](#)), ac mae bellach yn ei 10^{fed} blwyddyn, a bydd yr holl arian a godir yn cefnogi gwaith [Cod Morol Sir Benfro](#) – cod ymddygiad gwirfoddol wedi'i anelu at helpu pobl ddeall a pharchu'r amgylchedd morol.

2019 yw 'Blwyddyn Darganfod' Cymru, ac mae'r digwyddiad hwn yn dathlu'r creaduriaid rhyfeddol sydd yma yn Sir Benfro. Rydym ni eisiau i chi fynd allan o gwmpas y lle, i archwilio ein harfordir ac adnabod bywyd gwyllt ac, oherwydd hyn, mae PCF hefyd yn cynnal ei gystadleuaeth ffotograffiaeth bywyd gwyllt blyneddol. Mae cymryd rhan yn rhad ac am ddim, ac mae rhai gwobrau gwych ar gael. Mae'n agored i unrhyw un o unrhyw oed neu allu, a gellir tynnu lluniau gydag unrhyw fath o gamera – eich ffôn hyd yn oed!

Gallwch brynu tocynnau ar gyfer y digwyddiad o swyddfa docynnau Theatr Torch ar 01646 695267 neu ar-lein ar - www.torchtheatre.co.uk/a-view-on-wildlife-2019

Cadwch lygad ar y wefan oherwydd y byddwn yn cyhoeddi manylion y siaradwyr cyn bo hir...

Bydd enillwyr y gystadleuaeth ffotograffiaeth bywyd gwyllt flynyddol yn cael eu cyhoeddi ar y noson. Gellir gwneud ceisiadau a phleidleisio ar wefan PCF:

www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk/photo-competition-2019

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â: Holly Pretious, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, 01646 405690 neu holly.pretious@pembrokeshirecoastalforum.org.uk

Holly Pretious
PCF



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Hydref—Rhagfyr



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
9 Hydref	Gwyllo Morloi, Llanwnda 18:00	Ymunwch â cheidwad y parc cenedlaethol ar wylidwriaeth morloi tymhorol.	01646 624800
11 Hydref	<i>Golwg ar Fywyd Gwyllt</i> , Theatr Torch, 7pm	Ymunwch â ni mewn noson i ddathlu popeth sy'n naturiol a fydd yn agoriad llygad, wrth i arbenigwyr ddod at ei gilydd am 7pm ar 11 Hydref, i rannu delweddau a straeon am eu profiadau'n gweithio gyda bywyd gwyllt.	Holly Pretious 01646 405690
28 – 31 Hydref	Llwybr Cwis Calan Gaeaf, Canolfan Natur Cymru, Aberteifi.	Rhwng dydd Llun 28 a dydd Iau, 31 Hydref, yng Nghanolfan Natur Cymru, cewch gyfle i roi cynnig ar ein llwybr cwis Calan Gaeaf arswydus! Dilynwch llwybr o gliwiau o gwmpas y warchodfa natur a datrys y pos i ennill gwobr!	01239 621600 www@welshwildlife.org
28 Hydref	Taith Gerdded Natur a Chrefftau'r Hydref, Canolfan Natur Cymru, Aberteifi. 11:00 ac 14:00	Ymunwch â ni ar daith gerdded o gwmpas y warchodfa i edrych am arwyddion o'r hydref. Casglwch hadau, dail, a phethau eraill i'w defnyddio ar gyfer collage natur neu goron goetir. Mae'n costio £3 y plentyn. Mae'n addas ar gyfer plant 3 oed a hŷn, yng nghwmni oedolyn.	01239 621600 www@welshwildlife.org
1 Tachwedd	Digwyddiad Draenogiaid Gwych, Canolfan Natur Cymru, Aberteifi. 11:00 ac 14:00	Ymunwch â ni yng Nghanolfan Natur Cymru am ddiwrnod o hwyl, ffeithiau a chrefftau ar y thema draenogiaid. Bydd Pembrokeshire Hogspital yma gyda gwybodaeth ddefnyddiol, ac efallai draeog cyfeillgar i'ch cyfarch.	01239 621600 www@welshwildlife.org



Cylchlythyrau Natur

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PNSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PNSB

- Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Natur Sir Benfro gwefan: <https://www.sir-benfro.gov.uk/bioamrywiaeth>
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PNSB

amphibian and reptile
conservation



gwarchod
amffibiaid ac ymlusgiaid

bluestone
national park resort



Bumblebee
Conservation
Trust



Friends
of Pembrokeshire Coast
National Park



Ffrindiau
Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



PLANED

Plantlife



WEST WALES
BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH
GORLLEWIN CYMRU



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 8

